

# *YR HEUWR*

CYLCHGRAWN MISOL EGLWYS HOREB PENRHYN-COCH
CYFROL 2 RHIF 13
MEHEFIN 2008

Tybed faint ohonoch chi a welodd yr adroddiad yn y papur newydd yn ddiweddar yn honni bod yr arfer o wisgo siwt barchus i'r gwaith yn graddol ddiflannu? Yn ogystal, cafwyd trafodaeth fywiog ar y mater ar y rhaglen "Taro'r Post" yr wythnos ddiwethaf gydag ambell gyfrannwr yn mynnu bod gwisgo siwt yn hollbwysig ac yn arwydd o barch. Mynnai eraill, fodd bynnag, mai'r hyn a geir yn y galon oedd yn hanfodol.

Ond a wyddoch chi fod Duw wedi rhoi inni wisg arbennig fel Cristnogion? Yr apostol Paul sy'n sôn am y wisg honno yn ei lythyr at yr Effesiaid ac y mae'n seiliedig ar wisg y milwr Rhufeinig. Y mae iddi wregys, arfwisg, esgidau, tarian, helm a chleddyf. Rhaid imi gyfaddef na ddewch chi o hyd i'r wisg hon mewn unrhyw siop ddilliad yn Aberystwyth a go brin fod ganddoch chi wisg debyg yn eich cwpwrdd adref. O bosib, nid yw pawb yn teimlo'n hollol gysurus â'r ddelwedd filitaraidd a ddefnyddir gan yr Apostol wrth ddisgrifio'r wisg. Ond y pwynt y mae Paul yn ei wneud yw hyn: yn union fel y mae gwisg y milwr yn ei amddiffyn rhag y pethau sydd yn ymosod arno, felly hefyd y mae gwisg y Cristion. Y mae holl arfogaeth Duw ar gael i'n cynorthwyo yn ein byw beunyddiol ac i'n hamddiffyn rhag pob un a phob dim sydd yn ceisio tanseilio cariad Iesu Grist yn ein bywydau.

Beth felly yw'r wisg a roddwyd inni gan Dduw?

- gwregys o WIRIONEDD;
- arfwisg o GYFIAWNDER,
- esgidiau o BARODWRWYDD I GYHOEDDDI'R EFENGYL
- tarian o FFYDD;
- helm o IACHAWDWRIAETH
- a chleddyf o AIR DUW.

Nid yn unig y mae'r wisg yn ein hamddiffyn ond fe'n galluoga ni i herio anwireddau ac anghyfiawnderau ein hoes. Ac y mae'r wisg yn ei chyfanrwydd yn gymorth parod inni bob amser. Rhaid imi gyfaddef i'r wisg arbennig hon roddi hyder imi wrth fynd o ddrws i ddrws yn ddiweddar tra'n casglu dros Cymorth Cristnogol. Fel y mae'n hysbys, nid pawb heddiw sydd yn cydymdeimlo â mudiadau Cristnogol a digon parod yw rhai pobl i wrthod cyfrannu, a hynny er mawr siom inni. Oherwydd gwrthwynebiad o'r fath y mae'r wisg hon yn hollbwysig i'n nerthu i fwrw ymlaen â gwaith y deyrnas wrth inni orfod wynebu hen siomedigaethau blin. Er bod y wisg ar un lefel yn anweledig i'r llygad noeth y mae'n rhoi hyder anhygoel yn y galon. Gwisgwn bawb ohonom y wisg unigryw a roddwyd inni gan ein Harglwydd Iesu Grist.

Pob bendith
Judith

47 Glanceulan, Penrhyn-coch. SY23 3HF
Rhif Ffôn : 01970 820920 : E-bost : morris@coedlas.plus.com

**CALENDR MIS MEHEFIN**

| | | |
|---|---|---|
| 1 Mehefin<br>2.30yp | Gweindog<br>Neilltuo'r Diaconiaid Newydd<br>Oedfa Gymun | Cyhoeddwr y Mis:<br>Richard W. Davies<br><br>Gofal y Cymun<br>Glenys T a Mona |
| 8 Mehefin<br>10.30yb | Oedfa Deuluol | |
| 15 Mehefin<br>2.30yp | Oedfa Bregeth | Gofal y Te:<br>Glenys M a Janice |
| 22 Mehefin<br>10.30yb | Clwb Sul<br>Gweinidog | |
| 29 Mehefin<br>10.30yb | Oedfa Bregeth | |
| 6 Gorffennaf | Gweinidog<br>Oedfa Gymun | Gofal y Cymun<br>Sue Hughes |

**I'CH DYDDIADUR**
2 Mehefin : Cinio Cymorth Cristnogol : Seion, Stryd y Popty: 12.00-1.30yp.
2 Mehefin : Cyfarfod Diaconiaid, Festri Horeb am 7.30yh.
4 Mehefin : Cymun Canol Dydd , Festri Bethel am 12.00 hanner dydd.
11 Mehefin : Cinio Cymunedol Neuadd yr Eglwys : Horeb yn gyfrifol am weini.
11 Mehefin : Cyngerdd Cymorth Cristnogol yn Horeb: Côr Cantre'r Gwaelod ac Aelodau'r Clwb Sul.
18 Mehefin : Cymdeithas Bethel, Festri Bethel am 2.00yp. Dr Lionel Madden i annerch.
18 Mehefin : Cyfarfod Blynyddol Cymdeithas y Penrhyn am 7.30yh.
20 Gorffennaf : Fe fydd ein cenhades gyswllt yn ymweld â Bethel a Horeb ar y Sul hwn.

**LLOFFION**
**Dymuniadau Gorau i:**
- Ellen Sheppard sydd wedi derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn yr Alban. Croeso adref!
- Menna Jenkins sydd yn Ysbyty Tregaron
- Mansel, gŵr Sandra, a fu yn yr ysbyty

**Llongyfarchiadau i:**
- Katy Evans, merch Ronnie Evans, Bronhaul ar gael ei derbyn i Heddlu Dyfed-Powys.
- Trystan Davies- ei gerdd "Oedolion" yn un o'r darnau gosod yn Eisteddfod yr Urdd eleni.
- Leah, merch Wendy a Colin, a fydd yn graddio ym Mangor.

**Diolch i** Gwenno ac Anwen am eu rhan yn y Gymanfa Ganu.

**Cydymdeimlo** : Cydymdeimlwn yn ddwys â Charlotte a Daniel (mab Hilary a Roger Thomas), ar farwolaeth eu baban, Rhodri Daniel. Cynhaliwyd yr angladd yma yn Horeb ar ddydd Sadwrn, 31 Mai 2008.

**Taith Cymdeithas y Penrhyn**: Fe fydd y daith eleni ar ddydd Sadwrn 14 Mehefin ac yn ymweld ag ardal braf Cwmtawe. Cysylltwch â Ceris os am fwy o fanylion.

**Gwibdaith i Lwyndafydd**: Mae Cymdeithas Bethel yn trefnu gwibdaith brynhawn i Lwyndafydd ar Sul 29 Mehefin. Byddwn yn cynnal oedfa yn y capel ac yna yn mynd am de i'r "Crown". Croeso cynnes i unrhyw un sydd am ddod. Rhowch wybod i Judith.

**Apêl am Gymorth** Fe fydd angen paratoi lluniaeth ysgafn i Gôr Cantre'r Gwaelod wedi'r cyngerdd ar nos Fercher 11 Mehefin. A oes yna rywrai yn barod i gynorthwyo? Rhowch wybod i Judith.

**Cymdeithas Bethel** : Mae 'na groeso cynnes i unrhyw un i ymuno â Chymdeithas Bethel. Mae'n cyfarfod ar y trydydd Dydd Mercher bob mis am 2.00yp. yn festri Bethel. Dr Lionel Madden fydd yn annerch ar y 18 Mehefin.

**Gwefan y Parchedig Alwyn Daniels**, **Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru**: Llwyddodd Alwyn i gwblhau taith gerdded ar hyd arfordir Sir Benfro yn ddiweddar a hynny er mwyn codi arian at nifer o achosion da. Fe wnaeth Bethel a Horeb noddi Alwyn ar y daith. Os am fwy o fanylion ewch i'r wefan: wwwcylchcarningli.cu.uk

**Gwefan Trefeurig** : Braf yw cael darllen am hanes Horeb ar wefan Trefeurig a lawnsiwyd yn ddiweddar. Gweler: www.trefeurig.org.uk